



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Blynyddol 2018-2019

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Gweithredu'r Safonau.....	3
Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2017-2018.....	4
Prif Gyflawniadau yn ystod 2018-2019.....	5
Heriau.....	6
Cydymffurfio.....	8
Safonau darparu gwasanaeth.....	8
Safonau llunio polisiau.....	13
Safonau gweithredol.....	14
Safonau hybu.....	18
Cwynion.....	19
Mesurau.....	20

Cyflwyniad

Lluniwyd yr adroddiad blynyddol hwn i fodloni gofynion Mesur y Gymraeg (2011) a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2015.

Rydym wedi ymrwymo i egwyddor Safonau'r Gymraeg ac yn ymdrechu i gydymffurfio â'r safonau fel y'u cymhwysir i'r Cyngor yn yr hyn sy'n parhau i fod yn amgylchedd ariannol anodd lle mae adnoddau'n brin.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn ystod 2018-2019.

Gweithredu'r Safonau

Y Cyngor sy'n bennaf gyfrifol am weithredu'r safonau, a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am ofalu bod trefniadau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth. Yn ogystal, cydnabyddwn fod gan bob aelod o staff swyddogaeth i'w chyflawni wrth weithredu'r safonau'n llwyddiannus.

Mae'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol yn cynorthwyo'r Prif Weithredwr a'r aelodau etholedig, ac mae'n gyfrifol am oruchwylio'r broses o weithredu'r safonau. Cadeirir y grŵp hwn gan Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol a Chydraddoldeb, ac mae'n cynnwys aelodau o bob cyfarwyddiaeth yn ogystal â chynrychiolwyr o sefydliadau cydraddoldeb lleol.

Mae Grŵp Swyddog yr Iaith Gymraeg (WLOG) yn cefnogi'r broses o weinyddu a gweithredu'r safonau, yn helpu i ddatrys unrhyw faterion a allai godi yn gynnar ac yn cynorthwyo staff i ddarparu gwasanaethau yn unol â'r dyletswyddau a osodwyd ar y Cyngor.

Mae Grŵp Swyddog yr Iaith Gymraeg yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar gynnydd, materion ac arfer da i'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol, sy'n cymeradwyo cynllun gwaith Grŵp Swyddog yr Iaith Gymraeg.

Adroddir ar gamau gweithredu Grŵp Swyddog yr Iaith Gymraeg i'r Grŵp Cydraddoldeb a Chydlyniant Cymunedol. Mae camau

gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ar y cyd a/neu'n unigol gan Grŵp Swyddog yr Iaith Gymraeg, gyda chefnogaeth lawn y timau rheoli cyfarwyddiaeth unigol.

Mae'r holl wybodaeth a deunyddiau ategol sy'n ymwneud â gweithredu Safonau'r Gymraeg ar gael i staff ar y fewnwyd. Cynyddir ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau trwy'r Grŵp Rheoli Corfforaethol, timau rheoli cyfarwyddiaeth a chyfarfodydd tîm, yn ogystal â thrwy ddulliau cyhoeddusrwydd mewnol arferol y Cyngor, e.e. y cylchlythyr ar-lein, 'In the Loop'.

Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg 2017-2018

Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd Comisiynydd y Gymraeg ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2017-18, sef 'Mesur o Lwyddiant'. Mae'r adroddiad yn asesu sefyllfa gyffredinol gwasanaethau cyhoeddus Cymraeg, ac yn dangos bod gwasanaethau'n gwella ledled Cymru. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad blynyddol, cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Cyngor a Swyddogion Comisiynydd yr Iaith, lle y rhannwyd ac y trafodwyd canfyddiadau penodol yn ymwneud â pherfformiad y Cyngor.

Roedd perfformiad y Cyngor yn dda ar y cyfan:

- Ymdriniwyd â phob galwad i'n prif rif ffôn yn gyfan gwbl yn Gymraeg.
- Roedd ein hagwedd tuag at ddefnyddio'r Gymraeg yn gadarnhaol yn ystod 3 galwad o 3.
- Roedd yr holl bosteri, taflenni, setiau o reolau, ffurflenni a hysbysiadau swyddogol ar gael yn Gymraeg.
- Atebwyd pob neges e-bost ac ymholiad Facebook ar yr un diwrnod yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- Roedd pob ymateb yn Gymraeg (e-bost a Facebook) yn trin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg.
- Roedd 2 o 3 ymateb i ymholiadau Cymraeg a oedd yn cynnwys gwybodaeth neu ddogfennau ychwanegol yr un fath ag ymholiadau Saesneg ar Facebook.

Amlygodd arolwg y Comisiynydd fod rhywfaint o le i wella yn y meysydd canlynol:

Negeseuon e-bost:

- Derbyniodd 2 o 3 ymholiad ymateb, a atebodd yr ymholiad yn llawn, yn Gymraeg o gymharu â 3 o 3 yn Saesneg.
- Roedd 1 o 3 ymateb i ymholiadau e-bost Cymraeg yn cynnwys gwybodaeth neu ddogfennau ychwanegol o gymharu â 2 o 3 ymholiad e-bost Saesneg.
- Roedd 1 o 3 ymholiad e-bost Cymraeg yn cynnwys datganiad ynglŷn â chysylltu â'r sefydliad yn Gymraeg o gymharu â 3 o 3 ymholiad e-bost Saesneg.

Facebook

- Atebwyd 2 o 3 ymholiad Cymraeg ar Facebook yn llawn o gymharu â 3 o 3 ymholiad Saesneg ar Facebook.

Roedd materion tebyg yn ymwneud â chyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi cael eu hamlygu yn annibynnol ar yr arolwg hwn ac mae ffyrdd o oresgyn y materion hyn yn cael eu harchwilio.

Mae'r materion a amlygwyd o ran negeseuon e-bost wedi cael eu trosglwyddo i Grŵp Swyddog y Gymraeg i weithredu arnynt; gofynnwyd i'r Is-adran TG fewnosod datganiad ynglŷn â chysylltu â'r sefydliad yn Gymraeg ym mhob llofnod e-bost.

Prif Gyflawniadau yn ystod 2018-2019

- Ym mis Medi 2018, mabwysiadodd y Cyngor y [Strategaeth Hybu'r Gymraeg](#) a fydd yn cefnogi amcanion y Cyngor i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg bob dydd. Fe'i datblygwyd gan aelodau etholedig Pwyllgor Craffu'r Cabinet gyda chymorth Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot.
- Mae nifer y staff sydd wedi dweud eu bod yn dysgu'r Gymraeg wedi cynyddu o 748 (2017-2018) i 828 (2018-2019).
- Cymeradwywyd ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg gan Lywodraeth Cymru, sy'n manylu ar sut y bwriadwn gefnogi addysg Gymraeg a'i datblygu ymhellach mewn ysgolion ac yn y cymunedau ehangach, a sut rydym yn cynllunio ar gyfer twf yn y dyfodol.
- Gwnaethom agor ysgol newydd sbon, sef Ysgol Bro Dur, i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal ddeheuol y

fwrdeistref sirol, gan ategu'r buddsoddiad diweddar yng nghampws gogleddol Ysgol Ystalyfera.

- Mae Grŵp Swyddog y Gymraeg wedi bod yn allweddol wrth hybu a chynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ymhlith staff a'r cyhoedd, yn enwedig yn rhan o'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg.
- Yn ystod y flwyddyn, mae erthyglau ac arweiniad rheolaidd ynglŷn â'r Gymraeg i gefnogi cydymffurfio wedi cael eu cynnwys yn ein cylchlythyr ar-lein, sef In the Loop. Mae hwn ar gael i bob aelod o staff trwy ein mewnrwyd ac, yn fwy diweddar, sicrhawyd ei fod ar gael trwy ein porth gweithwyr, sy'n caniatáu i staff gael gafael arno o'u dyfeisiau cartref.
- Cytunwyd ar raglen waith Grŵp Swyddog y Gymraeg, sy'n ceisio cynorthwyo staff i weithredu'r safonau, amlygu arfer da a monitro cydymffurfiaeth.
- Diwygiwyd ein proses asesu effaith, ac mae'r broses Asesu Effaith Integredig newydd yn ystyried gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r fframwaith newydd a'r arweiniad cysylltiedig wedi cael eu dosbarthu i'r holl gyfarwyddwyr corfforaethol a phenaethiaid gwasanaeth i'w lledaenu i staff perthnasol. Mae pawb sy'n gyfrifol am ysgrifennu adroddiadau ledled y Cyngor wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r Asesiad Effaith Integredig newydd.
- Rydym wedi elwa o bartneriaeth agosach â Menter Iaith Castell-nedd Port Talbot yn ystod y cyfnod, yn enwedig wrth ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg a mentrau hyrwyddo ac ymwybyddiaeth, yn ogystal â chymorth a chyngor mwy cyffredinol.

Heriau

Cyfyngau Cymdeithasol

Roedd materion yn ymwneud â chyfrifon cyfyngau cymdeithasol gwasanaethau penodol wedi cael eu hamlygu yn annibynnol ar

ganfyddiadau'r Comisiynydd ac mae ffyrdd o'u goresgyn yn cael eu harchwilio.

Mae ein hadnoddau prin a'n cyfyngiadau ar recriwtio yn golygu ei bod yn parhau i fod yn anodd cydymffurfio'n llawn â'r safon sy'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol ar draws ein holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar gyfer gwasanaethau unigol.

Er ein bod bellach yn hyderus ein bod yn cydymffurfio â'r safonau sy'n ymwneud â negeseuon a gynlluniwyd neu a baratowyd o flaen llaw ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar gyfer gwasanaethau unigol, mae'r problemau sy'n gysylltiedig ag agweddau mwy annisgwyl y cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr un fath; mae'r nifer gyfyngedig o staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg a'r amser y mae'n ei gymryd i gyfieithu, yn ogystal â'r cyfyngiadau ehangach sy'n ymwneud â'r gyllideb a recriwtio, yn golygu bod darparu gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol cwbl ddwyieithog yn anodd iawn.

Rydym wedi bod yn treialu meddalwedd Microsoft Translator, ynghyd â meddalwedd Cysgliad, gyda siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn ein tîm Cyfathrebu a Chysylltiadau Cymunedol i weld sut gallai'r feddalwedd alluogi swyddogion sy'n rheoli'r cyfrifon hyn sy'n benodol i wasanaeth (y rhai sy'n rhugl yn y Gymraeg, yn eithaf rhugl, dysgwyr Cymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg) i:

- a. Sicrhau bod unrhyw bostiadau gan y Cyngor yn gallu cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd (gan ddefnyddio'r cyfleuster cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg)
a
- b. Sicrhau bod modd i sylwadau a negeseuon a dderbynnir yn Gymraeg trwy'r cyfrifon hyn, ac y mae angen ymateb iddynt, dderbyn ymateb yr un mor gyflym â phetaent wedi cael eu derbyn yn Saesneg (gan ddefnyddio'r cyfleuster cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg)

Mae'r cynllun peilot hwn wedi amlygu cyfyngiadau, felly rydym yn archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio meddalwedd dysgu peiriant, gyda Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd, i ddod o hyd i ateb. Llofnodion/negeseuon e-bost

Er bod testun safonol wedi cael ei ddosbarthu i bob aelod o staff i gydymffurfio â'r safonau amrywiol sy'n ymwneud â llofnodion a negeseuon e-bost, mae wedi dod i'r amlwg nad yw eto wedi cael ei roi ar waith yn llawn ledled y Cyngor.

Mae'r mater hwn wedi cael ei drosglwyddo i Grŵp Swyddog y Gymraeg ac mae camau i fynd i'r afael ag ef wedi cael eu hamlygu; gofynnwyd i'r Is-adran TG fewnosod y testun safonol (gweler yr is-adran Gohebiaeth isod) ym mhob llofnod e-bost.

Cydymffurfio

Safonau darparu gwasanaeth

Gohebiaeth

Mae pob neges e-bost, yn ogystal â'n penawdau llythyrau, yn cynnwys y testun safonol canlynol:

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a byddwn yn ymdrin â gohebiaeth Gymraeg a Saesneg i'r un safonau ac amserlenni.

We welcome correspondence in Welsh and will deal with Welsh and English correspondence to the same standards and timescales.

Yn ogystal, mae ein negeseuon e-bost hefyd yn cynnwys y canlynol, sy'n cysylltu â'r ffurflen dewis iaith ar ein gwefan:

Os hoffech ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor os gwelwch yn dda cliciwch [yma](#)

If you would like to use Welsh when dealing with the Council please click [here](#)

Os yw unigolion wedi rhoi eu dewis iaith i ni, cedwir y wybodaeth hon ar gronfa ddata (wedi'i ffurfio o ddata a gafwyd o'r ffurflen ar-lein ar ein gwefan) sydd ar gael i bob aelod o staff trwy ein mewnwyd.

Mae arweiniad ar gael i bob aelod o staff i'w helpu i gydymffurfio.

Galwadau ffôn

Mae Canllawiau Staff wedi cael eu cyhoeddi i helpu staff i gydymffurfio â gofynion y safonau.

Mae ein prif linell ffôn, a weithredir gan staff sy'n siarad Cymraeg, yn ymdrin â mwyafrif y galwadau i'r Cyngor.

Mae staff sy'n siarad Cymraeg ym mhob cyfarwyddiaeth wedi'u hamlygu'n glir yn ein cyfeirlyfr gweithwyr, sydd ar gael trwy ein mewnrwyd.

Mae erthyglau ar gydymffurfio wedi cael eu cynnwys yn y cylchlythyr ar-lein In the Loop yn ystod y flwyddyn.

Cyfarfodydd a Digwyddiadau Cyhoeddus

Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd, pan fo'r angen, gan yr Uned Gyfieithu (gwasanaeth a rennir â Dinas a Sir Abertawe).

Mae cyfleusterau cyfieithu ar gael ym mhob un o gyfarfodydd y Cyngor a drefnwyd.

Deunydd Arddangos, Arwyddion a Hysbysiadau

Mae'r holl arwyddion a hysbysiadau newydd yn ddwyieithog, yn unol â'r safonau.

Mae mwyafrif y deunydd arddangos a gynhyrchwn fel arfer yn rhan o hyrwyddiad neu ymgynghoriad sy'n gysylltiedig â chynlluniau, strategaethau neu fentrau datblygu, ac felly fe'i cynhyrchir yn ddwyieithog.

Dogfennau a Ffurflenni

Cynhyrchir dogfennau a ffurflenni'n ddwyieithog lle y bo'n briodol, ac mae arweiniad wedi cael ei gyhoeddi i helpu staff i gydymffurfio â gofynion y safonau.

Mae cynhyrchu fersiynau Cymraeg o gofnodion cyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor yn parhau i fod yn heriol, ond mae'r is-adran Gwasanaethau Democrataidd yn archwilio ffyrdd o fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae'r testun safonol canlynol yn cael ei gynnwys ar ffurflenni a dogfennau:

This document is available in Welsh - Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

This form is available in Welsh - Mae'r ffurflen hon ar gael yn Saesneg.

Gwasanaethau Derbynfafa

Mae gwasanaeth Cymraeg ar gael yn ein siop un stop/derbynfafa yng Nghanolfannau Dinesig Castell-nedd a Phort Talbot.

Bu'n anodd recriwtio staff ychwanegol sy'n siarad Cymraeg i'r is-adran Gwasanaethau Cwsmeriaid ac, yn anffodus, ni lenwyd swyddi y mae'r Gymraeg yn hanfodol ar eu cyfer, er iddynt gael eu hysbysebu. Ar y drydedd ymgais, recriwtiwyd dau brentis modern sy'n siarad Cymraeg, a'r gobaith yw y byddant yn datblygu ac yn derbyn swyddi parhaol yn y gwasanaeth ar ddiwedd eu hyfforddiant.

Mae cysylltiad ffôn â staff dwyieithog sy'n darparu gwasanaeth derbynfafa ar gyfer ein hardaloedd derbynfafa di-staff.

Gwefan a Chyfryngau Cymdeithasol

Mae ein gwefan ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg, ac mae'n bosibl newid rhwng y ddwy iaith trwy glicio botwm ar bob tudalen we.

Mae ein gwefan yn cael ei harchwilio'n barhaus i sicrhau bod gwybodaeth, y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdani, yn gyfredol, yn berthnasol ac yn ddwyieithog.

Lle mae cynnwys a dolenni trydydd parti ar gael yn ddwyieithog, adlewyrchir hyn trwy ddolenni a thudalennau gwe ar ein gwefan.

Yn anffodus, ni allwn ddarparu gwasanaeth Cymraeg cyflawn ar ein gwefan mewn rhai achosion, yn bennaf o ganlyniad i gyfyngiadau meddalwedd hanesyddol, lle mae tudalennau gwe yn cysylltu â meddalwedd/cronfeydd data swyddfa gefn ac ar ein tudalennau gwe ar gyfer trafodion. Bydd hyn yn gwella cysondeb o ran mynd i'r afael â safonau'r Gymraeg.

Yn sgil cyflwyno system rheoli cynnwys newydd, sef Umbraco, mae gweithwyr penodol yn gyfrifol am lanlwytho a monitro cynnwys tudalennau gwe gwasanaethau penodol. Cymeradwyir newidiadau gan is-adran ganolog os oes cynnwys Cymraeg a Saesneg ar gael yn unig.

Mae hyfforddiant ar system Umbraco wedi cael ei roi i bob aelod perthnasol o staff ac mae'r gofynion ynglŷn â chynnwys Cymraeg wedi cael eu pwysleisio.

Rydym yn parhau i bostio i'n cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol Cymraeg a Saesneg, a'u monitro.

O ganlyniad i gyfyngiadau o ran sgiliau Cymraeg mewn meysydd gwasanaeth, mae ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol unigol yn uniaith Saesneg. Fodd bynnag, fel yr esboniwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, rydym yn archwilio ffyrdd o oresgyn y cyfyngiadau hyn trwy ddefnyddio meddalwedd dysgu iaith/cyfieithu er mwyn sicrhau bod cyfrifon meysydd gwasanaeth yn cael eu cynnal.

Peiriannau Hunanwasanaeth

Mae rhaglen amnewid neu uwchraddio peiriannau tocynnau parcio wedi dechrau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y Safonau. Disgwylir i'r rhaglen hon, a gefnogir gan Gomisiynydd y Gymraeg, gael ei chwblhau erbyn 2021.

Hunaniaeth Gorfforaethol

Rydym wedi diwygio a diweddarau ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae canllawiau wedi cael eu cyhoeddi i helpu staff ag elfennau hunaniaeth weledol (logo, ac ati) a chynnwys, ac mae pecyn cymorth ar gael i weithwyr sy'n cynnwys amrywiaeth o dempledi.

Rhoddir y Gymraeg yn gyntaf yn ein logo, ein penawdau llythyrau, ein templedi dogfennau, ac ati.

Cyrsiau Addysg

Darperir cyrsiau addysg yn unol â gofynion y safonau. Fodd bynnag, ni ofynnwyd am ddarparu'r un o'r cyrsiau a gynigir gan Ddysgu Oedolion yn y Gymuned trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ein his-adran Diogelwch ar y Ffyrdd wedi cynnal 43 o gyrsiau yn ystod y flwyddyn a fynychwyd gan 388 o bobl, ac er y darparwyd yr holl ddeunydd hyrwyddo yn ddwyieithog, ni ofynnwyd i'r cyrsiau hyn gael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae mwy na 600 o ddisgyblion o'n hysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cael cyrsiau hyfforddi Beicio a Megadrive dwyieithog yn ystod y flwyddyn.

Dyfarnu grantiau a chontractau

Mae dogfennau grant a'r manylebau tendr yn adlewyrchu gofynion safonau'r Gymraeg.

Mae'r broses asesu ar gyfer grantiau'r trydydd sector wedi cael ei diweddarau i gynnwys meini prawf penodol yn ymwneud â'r Gymraeg:

A yw'r cais yn dangos sut y bydd y grant yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i thrin yn gydradd â'r Saesneg?

Mae e-gaffael ar gael yn Gymraeg a Saesneg trwy borth diogel.

Yn ystod mis Mawrth 2020, cynhaliwyd ymarfer i brofi cydymffurfiaeth â safonau darparu gwasanaeth ymhlith nifer fach o feysydd

gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â'r cyhoedd yn fynych; ond nid oedd pob safon yn berthnasol i bob maes gwasanaeth.

Roedd cydymffurfiaeth yn gadarnhaol ar y cyfan, gan fod mwyafrif y staff yn y meysydd gwasanaeth yn deall y gofynion wrth ymdrin â gohebiaeth a galwadau ffôn, trefnu cyfarfodydd, a chynhyrchu dogfennau ac arwyddion. Fodd bynnag, roedd rhai anghysondebau o fewn ac ar draws rhai meysydd gwasanaeth, e.e. defnyddio'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol, wrth ymdrin â galwadau ffôn ac wrth gynhyrchu dogfennau.

Mae aelodau o Grŵp Swyddog y Gymraeg yn mynd i'r afael â'r anghysondebau hyn yn uniongyrchol â'r meysydd gwasanaeth. Yn ogystal, mae Grŵp Swyddog y Gymraeg wedi datblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer rheolwyr ac ymgyrch wybodaeth i staff a fydd yn cael eu cyflwyno yn ystod 2019-2020. Bydd meysydd gwasanaeth yn cael ymarfer profi cydymffurfiaeth arall ym mis Mawrth 2019 i asesu cynnydd yn dilyn yr ymgyrch wybodaeth.

Safonau llunio polisïau

Mae'r Gymraeg bob amser wedi cael ei hystyried ochr yn ochr â'r nodweddion gwarchoddedig yn rhan o'n proses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein proses asesu effaith wedi cael ei diwygio i ystyried dyletswyddau cyfreithiol newydd, yn ogystal â rhai presennol, ac mae'r proses Asesu Effaith Integredig newydd yn ystyried gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Pa effaith y mae'r fenter yn ei chael ar:	+	-	+/-	Pam y bydd yn cael yr effaith hon?
gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg				
trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd				

Mae arweiniad i gyd-fynd â'r broses Asesu Effaith Integredig wedi cael ei gynhyrchu ac mae ar gael i bob aelod o staff trwy'r fewnwyd. Mae'r arweiniad hwn yn rhoi gwybodaeth fanwl am yr hyn y dylid ei ystyried o ran y Gymraeg.

Mae pob aelod perthnasol o staff (gan gynnwys uwch reolwyr) ac aelodau etholedig wedi cael hyfforddiant ar y broses Asesu Effaith Integredig ddiwygiedig.

Safonau gweithredol

Swyddi newydd

Mae pob contract cyflogaeth/llythyr cynnig amodol a datganiad manylion newydd yn datgan:

If you would like to receive correspondence in relation to your employment in Welsh, please contact the Employment Support Team on jobs@npt.gov.uk

Os hoffech dderbyn gohebiaeth mewn perthynas â'ch cyflogaeth yn Gymraeg, cysylltwch â'r Tîm Cefnogi Cyflogaeth yn jobs@npt.gov.uk

Gohebiaeth a dogfennau cyflogaeth

Mae'r holl ohebiaeth a dogfennau cyflogaeth, gan gynnwys ffurflenni arfarnu perfformiad, yn cynnwys testun sy'n cydymffurfio â'r safonau.

Mae ffurflenni arfarnu perfformiad, ynghyd â ffurflenni gwyliau ac absenoldeb, ar gael yn Gymraeg a gellir cael gafael arnynt trwy ein mewnwyd.

Polisiâu Adnoddau Dynol

Mae mwyafrif y polisiâu a restrir yn y safonau ar gael yn ddwyieithog.

Cwynion a Disgyblu

Mae'r testun canlynol wedi'i gynnwys yn ein Polisi Cwyno a'n Gweithdrefn Gwyno:

If you wish to conduct this process in Welsh, please contact your designated HR Officer.

Os hoffech gynnal y broses hon yn Gymraeg, cysylltwch â'ch Swyddog AD dynodedig.

If you would like to receive correspondence in relation to your employment in Welsh, please contact your designated HR Officer. Os hoffech dderbyn gohebiaeth mewn perthynas â'ch cyflogaeth yn Gymraeg, cysylltwch â'ch Swyddog AD dynodedig.

Darperir dogfennau Cymraeg a chyfieithu ar y pryd ar gais.

Cymorth i staff

Sicrhawyd bod meddalwedd Cysgliad (meddalwedd gramadeg a gwirio sillafu Cymraeg) ar gael i'r holl staff ac aelodau etholedig i'w gosod ar eu cyfrifiadur/gliniadur gwaith. Rhoddwyd gwybod am hyn yn uniongyrchol i staff sy'n siarad Cymraeg yn ogystal ag yn ein cylchlythyr ar-lein, In the Loop.

Darperir bathodynau llabed a laniardau i bob siaradwr a dysgwr Cymraeg, sy'n helpu i hyrwyddo'r Gymraeg ac annog defnydd ohoni ymhlith staff a chyda'r cyhoedd.

Mae gwybodaeth yn ymwneud â'r Gymraeg ar gael i staff trwy ein mewnrwyd. Mae'r wybodaeth sydd ar gael ar y fewnrwyd yn cynnwys tudalen benodol sy'n cynorthwyo staff i gydymffurfio â'r safonau; gan gynnwys negeseuon allan o'r swyddfa, arweiniad i weithwyr (ar gydymffurfio â'r safonau), llofnod e-bost a sut i drefnu cyfieithiadau.

Asesu sgiliau ieithyddol

Mae porth hunanwasanaeth i weithwyr wedi cael ei ddatblygu i alluogi staff i weld slipiau cyflog, cyflwyno hawliadau teithio a diweddarau

cofnodion Adnoddau Dynol, gan gynnwys eu sgiliau ieithyddol hunanasesedig. Er bod hyn wedi helpu i wella cywirdeb y data, mae cyfyngiadau'n gysylltiedig; nid yw pob aelod o staff yn defnyddio'r porth ar hyn o bryd (er bod y niferoedd yn cynyddu) ac mae'r categorïau sgiliau a ddefnyddir ar hyn o bryd yn oddrychol iawn.

Mae hunanasesu'n ddiffygiol yn ei hanfod oherwydd gallai pobl orgynrychioli neu dangynrychioli eu sgiliau, a pheidio â diweddarau data. Yn ogystal, mae'r lefelau sgiliau a ddefnyddir ar hyn o bryd, sef Rhugl, Eithaf Rhugl, ac ati, yn agored i'w dehongli. O ganlyniad, rydym wrthi'n diweddarau ein categorïau yn unol â fframweithiau cymwysterau ac asesu cydnabyddedig.

Hyfforddiant

Mae rhaglen hyfforddi gwbl gynhwysol ar gael i'r holl staff, a ddarperir gan ein Canolfan Cymraeg i Oedolion leol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r cyrsiau'n cynnwys 'Cyflwyniad i Ddysgu Cymraeg', 'Croeso Cymraeg Gwaith' a 'Gloywi Iaith'.

Mae myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol ar secondiad a gynhelir gan y Cyngor yn cael hyfforddiant 'Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yng Nghastell-nedd Port Talbot' i gynyddu ymwybyddiaeth o ddefnyddio'r Gymraeg ledled Castell-nedd Port Talbot ac wrth ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'.

Mae'n ofynnol i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso sy'n dechrau eu hail flwyddyn ymarfer ddilyn rhaglen gadarnhau sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r bartneriaeth 'Porth Agored', y mae'r Cyngor yn bartner ynddi, yn gyfrifol am ysgrifennu, datblygu a gweithredu'r rhaglen gadarnhau ac mae'n gweithio ar y cyd â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Sefydlwyd grŵp 'Sgwrs' anffurfiol yn 2016 ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg o bob gallu i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, gartref ac yn y gymuned.

Mae gan ein Tîm Dysgu, Hyfforddi a Datblygu sawl cyhoeddiad, gan gynnwys llyfrau ymadroddion, llyfrau cwrs, geiriaduron a deunydd

darllen ysgafn, ar gael i'w benthycu i ategu/ychwanegu at gyrsiau hyfforddi iaith.

Mae'r tudalennau 'Hyfforddiant' ar y fewnrwyd yn cynnwys adran sy'n rhoi gwybodaeth i staff, gan gynnwys dolenni i ddogfennau canllaw (e.e. y Cynnig Rhagweithiol, Mwy na Geiriau, ac ati) a chyfleoedd hyfforddi a datblygu yn ymwneud â'r Gymraeg. Hyrwyddir buddion defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle i gyflogwyr a gweithwyr trwy'r dudalen ar y fewnrwyd a'n rhaglen hyfforddi.

Mae ein proses Sefydlu gorfforaethol yn cynnwys gwybodaeth am adnoddau Cymraeg ac yn annog rheolwyr i drafod Safonau'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gyda gweithwyr newydd, a sicrhau eu bod yn ymwybodol ohonynt. Ymdrinnir â rhannau eraill o'r broses sefydlu hefyd, gan gynnwys gosod llofnod dwyieithog, ateb y ffôn yn ddwyieithog, ac ati.

Mae modiwl e-ddysgu ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg wedi cael ei ddatblygu a bydd ar gael yn fuan.

Recriwtio a Phenodi

Mae swyddi newydd neu wag yn cael eu categorio yn ôl y sgiliau ieithyddol sy'n angenrheidiol; hynny yw, bod y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, bod angen ei dysgu ar ôl penodi i'r swydd neu nid yw'n angenrheidiol. Yna, cofnodir y lefel sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer pob swydd ar system Vision Adnoddau Dynol.

Hysbysebwr pob swydd wag yn unol â gofynion y safonau.

Mae testun safonol Cymraeg a Saesneg wedi cael ei gynnwys ar y dudalen swyddi ac yn y ffurflenni cais am swydd corfforaethol:

We welcome applications in English and Welsh. An application submitted in Welsh will not be treated less favourably than an application submitted in English.

Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg a Saesneg. Ni chaiff cais a gyflwynir yn Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Yn ogystal, mae'r frawddeg ganlynol, yn Gymraeg a Saesneg, wedi cael ei hychwanegu at y llythyrau 'gwahoddiad i gyfweiliad'.

If you wish to conduct this process in Welsh, please contact the Employment Support Team on jobs@npt.gov.uk

Os hoffech gynnal y broses hon yn Gymraeg, cysylltwch â'r Tîm Cefnogi Cyflogaeth yn jobs@npt.gov.uk

Cyhoeddir yr holl ddogfennau recriwtio yn Gymraeg, lle y bo'n briodol, yn unol â gofynion y safonau. Darperir gwasanaethau cyfieithu ar y pryd lle y bo'r angen.

Arwyddion yn y gweithle

Mae'r holl arwyddion newydd yn ddwyieithog a rhoddir y Gymraeg yn gyntaf, fel sy'n ofynnol gan y safonau.

Cyhoeddiadau sain

Pan fo'r angen, rhoddir cyhoeddiadau sain yn Gymraeg yn gyntaf, heblaw mewn argyfwng neu pan gynhelir ymarfer argyfwng.

Safonau hybu

Ym mis Medi 2018, mabwysiadodd y Cyngor y [Strategaeth Hybu'r Gymraeg](#) a fydd yn cefnogi amcanion y Cyngor i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg, ac sy'n gwneud hynny, bob dydd. Erbyn 2023, disgwylir y bydd y Cyngor wedi cyfrannu at sicrhau o leiaf 1% yn fwy o siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref sirol o fewn y cynllun ariannol presennol, a lefelau cyllid ac adnoddau presennol.

Bydd ein Strategaeth a'n cynllun gweithredu pum mlynedd yn gosod y sylfeini ar gyfer datblygu Castell-nedd Port Talbot fel bwrdeistref sirol ddwyieithog, lle yr ystyrir bod yr iaith yn elfen bwysig a pherthnasol o weithrediad dydd i ddydd y Cyngor yn ogystal â bywydau'r bobl sy'n byw yn y fwrdeistref sirol.

Datblygwyd y Strategaeth a'r cynllun gweithredu gan grŵp gorchwyl a gorffen trawsbleidiol gyda chymorth staff Cyngor Bwrdeistref Sirol

Castell-nedd Port Talbot a chynrychiolydd o Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot (Menter Iaith CNPT).

Datblygwyd y cynllun gweithredu o fewn cyfyngiadau cyllidebol presennol, ac mae nifer o gamau gweithredu wedi'u cynnwys sydd eisoes yn cael eu cyflawni; trwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, grantiau/cyllid allanol a gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan sefydliadau allanol sy'n cyfrannu at nodau'r Strategaeth. Mae'n cynnwys meysydd gwaith y mae'r Cyngor yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt yn ogystal â gwaith sy'n cael ei wneud gan sefydliadau partner, gan gynnwys Fforwm Strategol y Gymraeg, a gadeirir ar y cyd gan Fenter Iaith Castell-nedd Port Talbot a Menter Iaith Abertawe.

Cwynion

Derbyniwyd cyfanswm o bum cwyn yn ystod 2018-2019; pedair drwy Gomisiynydd y Gymraeg ac un yn uniongyrchol i'r Cyngor.

CSG 340: Arwyddion ffordd ar Ffordd yr Harbwr – roedd y wybodaeth a oedd ar gael yn annigonol i alluogi'r Comisiynydd i benderfynu p'un ai ymchwilio ai peidio.

CSG 375: Gwasanaeth Cymraeg ar ein prif rif ffôn – canfu'r Comisiynydd ein bod wedi methu â chydymffurfio â'r safon. Cytunwyd ar gynllun gweithredu i leihau'r perygl bod hyn yn digwydd eto.

CSG 436: Y Dreth Gyngor – ni allai'r Comisiynydd ddod i'r casgliad bod y gŵyn yn ddilys, ac felly ni ymchwiliodd i'r gŵyn.

CSG 459: Baner/Gwefan/Cyfryngau Cymdeithasol – mae hyn yn parhau.

1/18-19: Diffyg cardiau cyfarch Cymraeg ym Mhort Talbot – er nad yw hyn yn rhan o gyfrifoldebau'r Cyngor, cyfeiriwyd y mater at sefydliadau partner sy'n ymwneud â'r iaith i ystyried unrhyw gamau posibl.

Gwnaed penderfyniad ynglŷn â'r cwynion canlynol yn ystod 2018-2019:

CSG 231: Peiriannau tocynnau parcio – Penderfynodd y Comisiynydd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 60, a gosodwyd camau gweithredu pellach i atal y methiant rhag parhau neu ddigwydd eto; paratoi cynllun gweithredu sy'n dangos y camau a gymerwyd i newid yr iaith ddiodyn i'r Gymraeg ar beiriannau tocynnau parcio sy'n gallu cynnwys dangosydd (botwm) iaith amgen, a pharatoi ail gynllun gweithredu sy'n dangos y camau a gymerwyd i gydymffurfio â safon 60 o ran sgriniau ar y peiriannau tocynnau parcio sy'n rhy fach i gynnwys dangosydd (botwm) iaith amgen – byddai'r rhain yn cael eu hamnewid o fewn 3 blynedd.

CSG 295: Cyfryngau Cymdeithasol – penderfynodd y Comisiynydd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 58, a gosodwyd camau gweithredu pellach i atal y methiant rhag parhau neu ddigwydd eto; adolygu effeithiolrwydd y trefniadau newydd er mwyn sicrhau bod y weithdrefn ar gyfer ymateb i negeseuon yn Gymraeg yn gweithio yn unol â bwriad y Cyngor.

CSG 299: Cyfryngau Cymdeithasol – penderfynodd y Comisiynydd fod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â safon 58, a gosodwyd camau gweithredu pellach i atal y methiant rhag parhau neu ddigwydd eto: paratoi cynllun gweithredu sy'n amlinellu pa gamau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i gydymffurfio â safon 58 wrth gyhoeddi cyfrifon Twitter adrannol.

Mesurau

Cyfieithiadau	2016-2017	2017-2018	2018-2019
Cyfanswm cost cyfieithiadau (lle y gellid ei nodi)	£67,537	£55,584	£52,598
Nifer y ceisiadau am gyfieithiad a gafwyd gan yr uned gyfieithu	917	788	1086

Galwadau Ffôn	2016-2017	2017-2018	2018-2019
Nifer y staff sydd â sgiliau iaith rhugl/eithaf rhugl a nodwyd yn y cyfeirlyfr gweithwyr	63	94	148
Yr amser cyfartalog a gymerir i ateb galwadau ffôn – Saesneg	21 eiliad	18 eiliad	22 eiliad
Yr amser cyfartalog a gymerir i ateb galwadau ffôn – Cymraeg	18 eiliad	23 eiliad	20 eiliad

Cyfryngau Cymdeithasol	31.03.17	31.03.18	31.03.19
Twitter			
Dilynwyr – cyfrif corfforaethol Saesneg (dilynwyr)	10,705	11,937	12,957
Dilynwyr – cyfrif corfforaethol Cymraeg	98	160	227
Facebook			
Cyfrif corfforaethol Saesneg	4,783	6,337	8,321
Cyfrif corfforaethol Cymraeg	22	27	37

E-gylchlythyr Newyddion CNPT (Newydd ar gyfer 2018-2019)	31.03.17	31.03.18	31.03.19
Nifer y tanysgrifwyr i'r e-gylchlythyr Saesneg	-	-	403
Nifer y tanysgrifwyr i'r e-gylchlythyr Cymraeg	-	-	7
Nifer y tanysgrifwyr i'r e-gylchlythyr dwyieithog	-	-	14

Gwefan	2016-2017	2017-2018	2018-2019
Cyfanswm nifer yr ymweliadau â'r wefan	2,838,679	2,845,526	2,981,002
Ymweliadau â thudalennau gwe Cymraeg	21,230	24,192	29,758

Sgiliau leithyddol	2016-2017	2017-2018	2018-2019
Yn gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn eithaf rhugl	181	174	186
Yn gallu siarad Cymraeg yn eithaf rhugl	131	126	128
Yn gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl	425	429	466
Yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl	101	94	95
Dysgwr Cymraeg	716	748	828

Swyddi Gwag	2016-2017	2017-2018	2018-2019
Roedd sgiliau Cymraeg yn ddymunol	79	174	189 (gan gynnwys 64 o swyddi mewn ysgolion)
Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol	15	36	29 (gan gynnwys 25 o swyddi mewn ysgolion)
Nid oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol	313	641	487 (gan gynnwys 207 o swyddi mewn ysgolion)
Roedd angen dysgu sgiliau Cymraeg ar ôl penodi i'r swydd	0	3	0

Cwynion	2016-2017	2017-2018	2018-2019
Nifer y cwynion a dderbyniwyd trwy Gomisiynydd y Gymraeg	2	3	4